# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD Y BWRDD GWEITHREDO DROS DIWYLLIANT, CHWARAEON A THWRISTIAETH

## 14EG RHAGFYR 2017

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd P. Hughes-Griffiths (Aelod o’r Bwrdd Gweithredol).

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
D. Hockenhull, Rheolwr y y Cyfryngau a Marchnata
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Ystafell 72A, Neuadd y Sir, Caerfyrddin – 10:00am - 10:15am

### 1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

There were no declarations of personal interest.

### 2. CYMERADWYO A LLOFNODI HYSBYSIAD PENDERFYNIAD Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR YR 24AIN HYDREF 2017

**PENDERFYNWYD llofnodi bod Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod oedd wedi'i gynnal ar 24 Hydref, 2017 yn gofnod cywir.**

### 3. CEISIADAU I'R GRONFA CYMORTH DIGWYDDIADAU RHAGFYR 2017

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried ceisiadau am gymorth gan y Gronfa Cymorth Digwyddiadau a gafodd eu hasesu ar sail eu cyfraniad at amcanion strategol y Cyngor o ran twristiaeth, cymunedau a'r economi. Rhoddodd y Rheolwr Marchnata a'r Cyfryngau ragor o wybodaeth am bob digwyddiad.

O ran cais "Wythnos Gymraeg" Tref Caerfyrddin dywedodd y Rheolwr Marchnata a'r Cyfryngau fod cymorth wedi'i roi yn y blynyddoedd blaenorol i'r digwyddiad hwn ac argymhellwyd bod cymorth yn cael ei roi eto yn 2018. Fodd bynnag, dywedwyd y dylai ceisiadau ar gyfer y digwyddiad hwn yn y dyfodol ymdrechu i gynnwys cyfleoedd ychwanegol i dyfu'r digwyddiad i fod yn ddigwyddiad sirol ar gyfer y gynulleidfa ehangach. Awgrymwyd y gellid cyflawni hyn drwy ddefnyddio'r Cylch Rhwydwaith Digwyddiadau a thrwy geisio incwm gan noddwr masnachol lleol a fyddai'n galluogi'r digwyddiad i fod yn fwy cynaliadwy yn y dyfodol.

Dywedodd y Rheolwr Marchnata a'r Cyfryngau wrth y Bwrdd Gweithredol y byddai'r meini prawf cymhwyso newydd, a fyddai'n cynnwys themâu allweddol ar gyfer 2018/19 a dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau, yn cael eu darparu i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf.

**PENDERFYNWYD**

**3.1 cymeradwyo'r ceisiadau canlynol am gymorth o'r Gronfa Cymorth Digwyddiadau yn amodol ar y telerau a'r amodau arferol a bennwyd ym meini prawf y gronfa:-**

| **Digwyddiad** | **Dyfarniad** |
|---|---|
| **Blwyddyn Ariannol 2017/18:-** | |
| • **"Wythnos Gymraeg" Tref Caerfyrddin** | **£2000.00** |
| **Blwyddyn Ariannol 2018/19:-** | |
| • **Ras Beicio Mynydd Battle on the Beach 2018** | **£2000.00** |

**AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL** **DYDDIAD**